ATODLEN 7

DARPARIAETHAU TROSIANNOL AC ARBEDION

# RHAN 3

## Darpariaethau'n ymwneud â diwygiadau i ddeddfiadau penodol

### Rheoliadau Defnyddiau Atgynhyrchiol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002

**10.—**(1) Mae person sy'n swyddog awdurdodedig at ddibenion Rheoliadau Defnyddiau Atgynhyrchiol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002(**1**) yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei ystyried yn swyddog awdurdodedig wedi hynny yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi ei awdurdodi gan y Comisiynwyr a chan Weinidogion Cymru.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar bwerau'r Comisiynwyr na Gweinidogion Cymru i ddirymu, ar y dyddiad trosglwyddo neu wedi hynny, unrhyw awdurdodiad sydd gan berson neu i adnewyddu'r awdurdodiad hwnnw wedi hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 7 para. 10 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

(**1**) O.S. 2002/3026 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2530.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, Paragraff 10.